

Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldebau

Fersiwn 3.6 Mai 2017

Pwrpas yr asesiad hwn yw rhoi gwybodaeth gytbwys er mwyn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ac i hybu ffyrdd gwell o weithio yn unol â chydraddoldebau (Deddf Cydraddoldebau 2010), hyrwyddo'r iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a phedwar paramedr y ddatl ynglŷn â thegwch fel y nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd (Adroddiad Llawn CTC i'r Cyngor 2013).

Cwblhawyd gan: Deborah Weston

Rôl: Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth

Pennaeth Gwasanaeth: Sarah Morgan

Dyddiad: 01/01/2018

Cadarnhaf fod y Pennaeth Gwasanaeth uchod wedi cytuno ar gynnwys yr asesiad hwn

Do / Naddo

Pan fyddwch yn cwblhau'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldebau, eich cyfrifoldeb chi yw ei gyflwyno i impact.assessment@newport.gov.uk

1. Enw a disgrifiad o'r polisi / cynnig sy'n cael ei asesu. Amlinellwch bwrpas y polisi.

Pwrpas y cynnig hwn yw darparu ysgol gynradd newydd i wasanaethu datblygiad Glan Llyn yn unol ag adran 106 o'r cytundeb cynllunio.

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldebau yn cefnogi'r cais am ganiatâd i gyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig ad-drefnu ysgolion er mwyn sefydlu ysgol gynradd 2 ddosbarth mynediad newydd ar ddatblygiad Glan Llyn ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 oed.

Fel rhan o'r cytundeb Adran 106 â'r Cyngor, mae'n ofynnol i'r datblygwr ddarparu'r ysgol newydd hon i wasanaethu'r teuluoedd sy'n byw ar y datblygiad yn bennaf. Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai'r ysgol newydd yn cael ei sefydlu o fis Medi 2018. Ond mae barn y Cyngor wedi newid a chynigir y caiff y dyddiad gweithredu ei newid i fis Medi 2019. Mae'r dyddiad agor gohiriedig hwn yn galluogi amserlen hwy i sefydlu'r ysgol newydd yn effeithiol o ran penodi staff a chaffael adnoddau.

2. Amlinellwch sut rydych eisoed wedi cynnwys rhanddeiliaid a fydd yn cael eu heffeithio gan y polisi/cynnig neu sut y byddwch yn gwneud hynny?

Roedd y cynnig hwn yn destun ymgynghoriad ffurfiol ag amrywiaeth o randdeiliaid yn unol â diffiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol Llywodraeth Cymru. Mae'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol wedi'i amlinellu mewn Adroddiad ar yr Ymgynghoriad sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

Y cam nesaf yn y broses hon yw cyhoeddi Cynnig Statudol am gyfnod o 28 diwrnod. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r holl randdeiliaid ystyried y cynnig ymhellach a chyflwyno gwrthwynebiadau cyfreithiol iddo, os bydd angen.

3. Pa wybodaeth/dystiolaeth sydd gennych am randdeiliaid? e.e. barn, anghenion, defnydd o'r gwasanaeth ac ati. Cynhwyswch yr holl dystiolaeth sy'n berthnasol yn eich barn chi.

Mae dogfen ymgynghori ffurfiol wedi'i llunio a phroses ymgynghori ffurfiol wedi'i chynnal yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, a Chod Trefniadaeth Ysgolion statudol 2013. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gydag amrywiaeth o randdeiliaid, ac mae'r canlyniadau wedi'u hamlinellu yn yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad a luniwyd ac a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

Bydd y penderfyniad i gyhoeddi hysbysiad statudol yn rhoi'r cyfle i randdeiliaid wrthwynebu'r cynnig ar ôl cael y cyfle i ddysgu mwy am y cynlluniau yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol.





4. Effaith ar Gydraddoldebau a'r iaith Gymraeg


Nodwedd warchoddedig	Effaith:			Nodwch fanylion pellach ynglŷn â natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniant cymunedol 3. Helpu i ddileu achosion o wahaniaethu/ aflonyddu/ erlid anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Nid y naill	
Oedran	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Bydd darparu lleoedd ysgol gynradd ychwanegol yn ategu dewis rhieni a darpariaeth ysgolion lleol i blant lleol. Ni ddylai hyn gael effaith andwyol sylweddol ar ysgolion eraill ledled y Ddinas a'r effaith a ddisgwylir yw darparu dysgu didor i ddisgyblion cynradd. Caiff yr holl staff a gyflogir yn y pen draw eu trin yn gyfartal ni waeth beth fo'u statws o fewn y nodwedd warchoddedig hon.
Anabledd	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Bydd darparu lleoedd ysgol gynradd ychwanegol yn ategu dewis rhieni a darpariaeth ysgolion lleol i blant lleol. Ni ddylai hyn gael effaith andwyol sylweddol ar ysgolion eraill ledled y ddinas a'r effaith a ddisgwylir yw darparu dysgu didor i ddisgyblion cynradd. Caiff yr holl staff a gyflogir yn y pen draw eu trin yn gyfartal ni waeth beth fo'u statws o fewn y nodwedd warchoddedig hon.
Ailbennu rhywedd/ trawsrywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Os caiff y cais hwn ei gymeradwyo, bydd disgyblion, rhieni / gofalwyr a staff yn gysylltiedig â'r ysgol yn y pen draw. Os bydd unrhyw un o'r rhanddeiliaid hyn yn perthyn i'r nodwedd warchoddedig hon, caiff eu gofynion eu hystyried yn unol â'r polisiau perthnasol a fabwysiedir gan gorff llywodraethu'r ysgol.
Priodas neu	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo, cyflogir staff i weithio

Nodwedd warchoddedig	Effaith:			<p>Nodwch fanylion pellach ynglŷn â natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniant cymunedol 3. Helpu i ddileu achosion o wahaniaethu/ aflonyddu/ erlid anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Nid y naill	
bartneriaeth sifil				yn yr ysgol yn y pen draw. Caiff pob aelod o staff ei drin yn gyfartal ni waeth beth fo'i statws o fewn y nodwedd warchoddedig hon.
Beichiogrwydd neu famolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo, cyflogir staff i weithio yn yr ysgol yn y pen draw. Caiff pob aelod o staff ei drin yn gyfartal ni waeth beth fo'i statws o fewn y nodwedd warchoddedig hon.
Hil	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Bydd darparu lleoedd ysgol gynradd ychwanegol yn ategu dewis rhieni a darpariaeth ysgolion lleol i blant lleol. Ni ddylai hyn gael effaith andwyol sylweddol ar ysgolion eraill ledled y ddinas a'r effaith a ddisgwylir yw darparu dysgu di-dor i ddisgyblion cynradd.</p> <p>Caiff yr holl ddisgyblion a fydd yn mynychu'r ysgol a'r staff a gyflogir yno yn y pen draw eu trin yn gyfartal ni waeth beth fo'u statws o fewn y nodwedd warchoddedig hon.</p>
Crefydd neu Gredoau neu ddiffyg cred	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Mae wyth ysgol gynradd ffydd ledled ystâd ysgolion Casnewydd ar hyn o bryd ac mae'r meini prawf gorgofrestru sy'n ategu'r broses o dderbyn disgyblion i'r ysgolion hyn yn blaenoriaethu'r rheini sy'n ceisio addysg sy'n seiliedig ar ffydd.</p> <p>Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau gorff esgobaethol cynrychioliadol wrth drefnu lleoedd i ddisgyblion mewn ysgolion ffydd a bydd y trefniant hwn yn parhau wrth ystyried a gynigir y ddarpariaeth mewn unrhyw ysgol newydd yn y dyfodol.</p>
Rhyw/ Hunaniaeth o ran Rhywedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Bydd darparu lleoedd ysgol gynradd ychwanegol yn ategu dewis rhieni a darpariaeth ysgolion lleol i blant lleol.</p> <p>Ni ddylai hyn gael effaith andwyol sylweddol ar ysgolion eraill ledled y ddinas a'r effaith a ddisgwylir yw darparu dysgu di-dor i ddisgyblion cynradd.</p> <p>Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo, bydd rhieni / gofalwyr a staff yn gysylltiedig â'r ysgol yn y pen draw a chaiff pob un ei drin yn gyfartal ni waeth beth fo'i statws o dan y nodwedd warchoddedig hon.</p>
Cyfeiriadedd Rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo, cyflogir staff i weithio yn yr ysgol yn y pen draw. Caiff pob aelod o

Nodwedd warchoddedig	Effaith:			<p>Nodwch fanylion pellach ynglŷn â natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniant cymunedol 3. Helpu i ddileu achosion o wahaniaethu/ aflonyddu/ erlid anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Nid y naill	
				<p>staff ei drin yn gyfartal ni waeth beth fo'i statws o fewn y nodwedd warchoddedig hon.</p>
Yr Iaith Gymraeg	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r uchelgais i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn nifer o ddogfennau polisi cyhoeddus. Mae targed y Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg yn anelu at sicrhau bod 30% o blant 7 oed ledled Cymru yn derbyn addysg cyfrwng Gymraeg erbyn 2020. Yn 2015, 25% oedd y ganran hon.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi yn strategaeth 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' mai'r "system addysg statudol yw'r prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd".</p> <p>Mae Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022 Cyngor Dinas Casnewydd yn ymrwymo i gynyddu'r ganran o ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Gymraeg o 4% i 5% dros y pedair blynedd nesaf.</p> <p>Gan mai ysgol Saesneg fydd yr ysgol arfaethedig, yn hytrach na Chymraeg, ni fydd y datblygiad hwn yn cyfrannu mewn modd ystyrlon at gyflawni'r targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru na'r Awdurdod Lleol yn yr achos hwn.</p> <p>Teimla'r Awdurdod Lleol y caiff hyn ei gyfiawnhau'n rhannol gan yr ymatebion a dderbyniwyd cyn ymgynghori, ac yn rhannol gan fod y safle arfaethedig yn agos at ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sydd eisoes yn bodoli.</p> <p>Er bod dynodi'r ysgol gynradd newydd hon fel ysgol cyfrwng Saesneg yn golygu na fydd yr awdurdod yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr ymdrech i gyflawni targed Llywodraeth Cymru ar yr adeg hon, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ystyried yr angen am ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn perthynas ag unrhyw ysgolion newydd a gaiff eu hadeiladu yn y dyfodol.</p>

5 Sut mae eich cynnig wedi ymgorffori a blaenoriaethu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei ddatblygu?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn arddangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
 <p>Long Term</p> <p>Cydbwysio anghenion byrdymor ag anghenion hirdymor</p>	<p><i>Ydy drwy sicrhau bod digonedd o lefydd mewn ysgolion yn yr hirdymor mewn ardal lle bydd o bosibl alw uchel gan rieni gan gyflawni yn erbyn cytundeb cyfreithiol adran 106 y Cyngor. Fodd bynnag, yn groes i hyn, mae'r amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer amcanestyniadau disgyblion yn nodi oddeutu 105 o leoedd disgyblion dros ben yn yr ysgolion Saesneg, ysgolion Cymraeg ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yng nghlystyrau dynodedig Llysweri a Llanwern ym mis Ionawr 2019 ar ôl ystyried y disgyblion newydd a ddisgwyllir o'r datblygiadau tai newydd hyn. Felly, mae'n debyg y gallai'r disgyblion sy'n byw ar safle Glan Llyn gael lleoedd mewn ysgolion eraill yn yr ardal leol ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19. Mae hyn yn cefnogi dull mwy cost-effeithiol gan y byddai'r lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion ar hyn o bryd yn cael eu llenwi cyn creu ysgol newydd. Felly, byddai'n ymddangos yn rhesymol gohirio'r broses o sefydlu'r ysgol gynradd newydd tan fis Medi 2019.</i></p>
 <p>Collaboration</p> <p>Cydweithio i gyflawni amcanion</p>	<p><i>Mae ymgynghoriad statudol ffurfiol eisoes wedi'i gynnal. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldebau blaenorol wedi'i ddiweddarau er mwyn ystyried effaith y cynnig. Yn ogystal, darperir yr ysgol gan y datblygwr fel rhan o gytundeb cynllunio'r Cyngor.</i></p>
 <p>Involvement</p> <p>Cynnwys y rheini sydd â diddordeb a gofyn eu barn</p>	<p><i>Mae ymgynghoriad statudol ffurfiol eisoes wedi'i gynnal. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldebau blaenorol wedi'i ddiweddarau er mwyn ystyried effaith y cynnig.</i></p>
 <p>Prevention</p> <p>Darparu adnoddau er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu</p>	<p><i>Mae cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion cynradd yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor, sef "yr ysgol gywir yn y lle cywir", a'r athroniaeth "ysgolion lleol i blant lleol".</i></p>

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn arddangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
 <p data-bbox="229 696 320 719">Integration</p> <p data-bbox="129 734 421 846">Ystyried yr effaith ar bob nod llesiant ar y cyd ac ar gyrff eraill</p>	<p data-bbox="453 304 1412 573"><i>Mae ymgynghoriad statudol ffurfiol wedi'i gynnal gyda rhanddeiliaid allweddol, a manylir ar y canlyniad yn adroddiad yr ymgynghoriad. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Nodau Llesiant "Cymru lewyrchus", "Cymru gydnerth" a "Cymru sy'n fwy cyfartal" ac ni chaiff unrhyw effaith andwyol ar unrhyw Nodau Llesiant eraill. At hynny, mae'r cynnig hwn cefnogi Amcan Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd, sef "Gwella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth" ac "Adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy".</i></p>

6 A fydd y cynnig/polisi yn cael effaith anghymesur ar ardal ddaearyddol benodol yng Nghasnewydd?

Bydd y newid arfaethedig yn effeithio'n bennaf ar ardal Llanwern y ddinas. Fodd bynnag, gall plant sy'n byw ledled y ddinas wneud cais i'w derbyn i'r ysgol. Nod y Cyngor yw darparu ysgolion lleol i blant lleol a thaith addysgol unigol i blant yn ystod eu hamser yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

7 Sut y mae'r cynnig/polisi yn berthnasol i bamedrau'r ddadl ynglŷn â Thegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd?

Bydd darparu lleoedd ysgol gynradd ychwanegol mewn ardal lle mae galw mawr yn cefnogi Polisi Derbyn Ysgolion lle ymdrinnir â phob ymgeisydd yn deg ac yn gyfartal. Bydd cael lleoedd mewn ysgolion yn digwydd yn fwy cyfartal a cheir llwybr dysgu di-dor i blant rhwng 3 ac 11 oed.

8 Gan ystyried yr asesiad cyfan hwn, beth y gellid ei wneud er mwyn lleihau unrhyw effeithiau negyddol yn deilïo o'ch polisi a chyfrannu at effeithiau cadarnhaol yn well?

Er bod dynodi'r ysgol gynradd newydd hon fel ysgol cyfrwng Saesneg yn golygu na fydd yr awdurdod yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr ymdrech i gyflawni targed Llywodraeth Cymru ar yr adeg hon, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ystyried yr angen am ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn perthynas ag unrhyw ysgolion newydd a gaiff eu hadeiladu yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda dau gorff esgobaethol cynrychioladol wrth drefnu lleoedd i ddisgyblion mewn ysgolion ffydd a bydd y trefniant hwn yn parhau wrth ystyried y ddarpariaeth a yngir mewn unrhyw ysgol newydd yn y dyfodol.

9 Monitro, gwerthuso ac adolygu

Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai'r ysgol newydd yn cael ei sefydlu o fis Medi 2018. Ond mae barn y Cyngor wedi newid a chynigir y caiff y dyddiad gweithredu ei newid i fis Medi 2019.

Caiff effaith y cynnig ei werthuso unwaith y sefydlir yr ysgol. Fodd bynnag, caiff yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldebau ei adolygu a'i ddiweddarau yn dilyn diwedd cyfnod yr hysbysiad statudol cyn gwneud dyfarniad terfynol.

10 Cyfranogiad

Cafodd rhanddeiliaid wybod bod Adroddiad ar yr Ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi ac y bydd yn rhan o'r penderfyniad ynghylch p'un a ddylid symud ymlaen i gyhoeddi'r cynnig statudol. Caiff copïau o'r hysbysiad statudol eu rhannu â rhanddeiliaid a'u cyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd ac ar glwydi'r ysgol.

11 Crynodeb o'r Effaith (i'w gynnwys mewn unrhyw adroddiad)

Deddf Cydraddoldebau 2010 a'r Iaith Gymraeg

Bydd yr ysgol arfaethedig newydd yn gwasanaethu plant a theuluoedd sy'n byw ar ddatblygiad Glan Llyn yn bennaf, gan ddarparu ysgol gynradd leol a meithrin cydberthnasau cadarnhaol yn amgylchedd yr ysgol ac o'i gwmpas. Caiff lleoedd yn yr ysgol eu dyrannu yn unol â Pholisi Derbyn Ysgolion sy'n cefnogi system deg a chyfartal ar gyfer dyrannu lleoedd ysgol.

Penderfynwyd sefydlu'r ysgol fel ysgol Saesneg ar ôl ystyried ymatebion a dderbyniwyd cyn ymgynghori, ac yn rhannol gan fod y safle arfaethedig yn agos at ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sydd eisoes yn bodoli.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Yn gryno mae'r cynnig hwn yn cefnogi llesiant drwy gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd ledled y Ddinas. Mae "yr ysgol gywir yn y lle cywir" ac "ysgolion lleol i blant lleol" hefyd yn helpu i ddiwallu anghenion plant a fyddai'n cael eu gorfodi i fynychu ysgolion sy'n bell o'u cartrefi fel arall gan felly leihau amser a chostau teithio.